# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
# IONAWR 29AIN 2025 AM 7:30YH
# CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Gwydion Jones (GJ) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Sara Thomas (ST), John Harris (JH), Euros Williams (EUW) & Austin Roberts (AR)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION RHAGFYR 17eg 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan DR ac eiliwyd gan AV.

## 4 MATERION YN CODI

Dywedodd CR y byddai'n ffonio'r cyfrifydd cyn y cyfarfod nesaf i fynd ar ôl y materion hanesyddol. Mae CWG angen gwaith papur ganddi cyn y gall y Cyngor Cymuned ddechrau hawlio T.A.W ei hun a dywedodd DR efallai bod rhif sydd ei angen ar glawr mewnol yr hen lyfr bach coch.

Dywedodd JR fod ganddi fagiau baw ci a phosteri dim baeddu sbâr ac felly cytunodd rhai i fynd a rhai i'w pentrefi.

Rhoddodd DR ddiweddariad o ran perchnogaeth y cae bob tywydd a dywedodd fod y bobl sydd gyda'r gwaith papur wedi bod yn brysur ond bydd yn ei gael o fewn wythnos nesaf. Gofynnodd hefyd a oedd caniatâd cynllunio'r siop fach wedi ei ddrysu gyda *Stag Yard* a dywedwyd fod hyn wedi ei drafod yn y pwyllgor diwethaf a bod CWG wedi cysylltu gyda'r cyngor i ofyn hyn. Gofynnwyd i CWG fynd ar ôl ERF eto i gael diweddariad ynglŷn â'r mater. Mae DR wedi methu cael y paent o do'r arhosfan bws i ffwrdd gyda thynnwr farnais ewinedd ond bydd yn ceisio gwneud efo deunyddiau gwahanol dros y dyddiau nesaf. Mae yna lechen arall wedi dod i ffwrdd o'r siop fach ac mi wnaiff dynnu ei lun yfory.

Dywedodd AV fod pobl dal i gerdded y llwybr troed ger y Bridge, Llangernyw er ei fod wedi cau. Gofynnwyd i CWG gysylltu gydag AR i ofyn beth sy'n digwydd gyda'r llwybr troed.

[GJ yn cyrraedd].

Dywedodd AV fod y Clwb Garddio wedi ei ohirio am fis Ionawr oherwydd y tywydd garw.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/52191 Rhyd Eden, Llangernyw LL22 8RS

Pawb yn cymeradwyo.

**5.2** Cais Rhif 0/52192 Llethr, Gwytherin LL22 8YF

Pawb yn cymeradwyo.

**5.3** Cais Rhif 0/52226 Llwyn Llydan, Llangernyw LL22 8UF

Pawb yn cymeradwyo.

[EW yn cyrraedd]

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol – roedd AR wedi gofyn am ei roi ar yr agenda ond yn ei absenoldeb dywedodd CR y gellir trafod y mater wrth drafod Cronfa Bro Cernyw.

**6.2** Mae CWG wedi derbyn e-bost gan AR yn dangos tystiolaeth o berchnogaeth y cyngor i'r darn o dir o gwmpas y cae bob tywydd.

**6.3** Dyddiad pwyllgor mis Chwefror – penderfynwyd ei gynnal wythnos ynghynt a dal i fod yn Llangernyw

**6.4** Rheoliadau Ariannol – bydd DR, EW, CR a CWG yn cwrdd yn fuan i fynd dros y fersiwn newydd sydd wedi ei addasu.

## 7 Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Bydd yn mynd o amgylch y ward yr wythnos nesaf gydag Emyr Jones Priffyrdd ac mi fyddem yn ymweld â phroblemau dwr yn Ty'n Ffynnon, Nhy'n Bryn a Phetryal ynghyd a rhannau eraill o'r ward .

**7.2** Dwi wedi derbyn canlyniadau archwiliad cyflymder Glan Collen ac wedi'i anfon at y Clerc. Roedd cyfartaledd y cyflymder yn 14 m.y.a.

**7.3**. Mae Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru i'w chynnal yn y Gell Trofarth yn ystod Haf 2025. Mae'r Clerc wedi derbyn llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol. Mae Cyngor Cymuned Eglwysbach wedi rhoi cyfraniad o £200. Dywedodd CWG nad oedd wedi derbyn llythyr ganddynt yn gofyn am gyfraniad ond bod cais wedi cyrraedd am gyfraniad o Gronfa Bro Cernyw.

Dywedodd JR ei bod yn pryderu am gyflwr y ffyrdd ac yn enwedig ffordd Llanfair. Hefyd, dywedodd AV bod angen gwagio 2 gwter; 1 wrth y Stag ac un wrth borth yr eglwys lawr am y toiledau.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Adroddiad chwarterol – CWG wedi ei e-bostio i bawb a phawb yn cymeradwyo.
**8.2** Cais gan Theatr Bara Caws am arian – penderfynwyd i beidio cyfrannu
**8.3** Nid oes dal fil wedi cyrraedd am yr arwyddion VAS ac felly gofynnwyd i CWG ymchwilio i'r mater.

## 9 GOHEBIAETH

Wedi ei anfon ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.1** Dathlu'r digwyddiad llwyddiannus Un Llais Cymru yn y Senedd 27.11.24
**9.2** Arolwg o'r pwyllgor ardal Un Llais
**9.3** Cynllunio Busnes i'r 3ydd Sector gan CVSC
**9.4** Gwybodaeth am gyrsiau Hyfforddi ar Ymwybyddiaeth Asbestos
**9.5** Adroddiad blynyddol a chyfrifon Un Llais am 2023-24
**9.6** Cyllideb y Cyngor 2025/26
**9.7** Llythyr - Terfyn Cyflymder 20mya
**9.8** Gweithio gyda Phartneriaid i Ddarparu Cymorth Costau Byw i'ch Cymuned gan Un Llais
**9.9** Cronfa Cefnogi Gwirfoddolwyr CCGC
**9.10** Cais i rannu manylion ymgynghoriad trafnidiaeth
**9.11** Argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg – penderfynwyd i CWG yrru'r llythyr yma i Mark Drakeford

**9.12** Llythyrau gan y '*North Wales Pilgrims Group*' yn trafod ceisiadau am grantiau - pawb yn cefnogi
**9.13** *Twenty's Plenty*

## 10 BILIAU

**10.1** Bil cyfieithu Enlli - £95

**10.2** Costau hurio'r ganolfan £20, rhent cwpwrdd £12 a tal aelodaeth am y flwyddyn £50 = cyfanswm o £82 + £10 hurio'r Ganolfan ar gyfer y Clwb Garddio = £92

**10.3** Gwaith Kevin ar y fynwent a llwybrau - £972 + T.A.W = 1166.40 . Trafodwyd ei fod yn fater o iechyd a diogelwch ac felly roedd rhaid gwneud y gwaith.

Cytunodd pawb i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**GJ –** Dywedodd bod plât wedi dod i ffwrdd o garreg filltir wrth ymyl Ddol Bach. Penderfynwyd i ofyn i Kevin ei rhoi yn ôl. Mi wnaiff Gwydion nol y blât o Bant Manus ac fe all ef a Kevin drefnu ei bod yn cael ei ail-gosod. Hefyd, dywedodd bod fan wedi ei pharcio ym Mhandy Tudur am gyfnod hir. Mae yn achosi rhwystr gan ei bod yn blocio'r gornel ac yn gallu bod yn beryglus. Penderfynwyd i CWG gysylltu gyda'r cyngor i nodi pryder y Cyngor Cymuned.

**EW** – Bydd yn cwrdd AR yr wythnos nesaf i drafod nifer o faterion yng Ngwytherin. Dywedodd hefyd bod yna ddyn o Wytherin eisiau cael gweld lle fuasai yn gallu cael ei gladdu gan ofyn a oedd lle ym mynwent yr Eglwys? Penderfynwyd i CWG i siarad efo Euros i roi'r mapiau iddo. Yn ogystal â hyn, dywedodd bod peth dryswch rhwng beth sydd ar y daflen casglu ysbwriel o'i gymharu â 'r *app* a phenderfynwyd i CWG ofyn i AR wirio hyn.

**DR** – Dywedodd bod car gwyn yn goryrru drwy Langernyw a'i bod wedi e-bostio cyn y Nadolig yn dweud bod tractor wedi taro carreg wrth fynd drwy'r pentref. Hefyd nododd fod y trigolion eisiau gwybod pryd y bydd y llwybr troed yn ail-agor a bod y tarmac wrth Hendre Ddu wrth droi am Lanrwst wedi dechrau rhoi. Dywedodd bod yr heddlu wedi bod yng Nglan Collen cyn y Nadolig a gofynnodd a oes rhywun yn gwybod pam. Roedd cyfarfod 'Pethau Bychain' i drafod bioamrywiaeth i fod heno ond ei bod wedi gorfod ymddiheuro.

**AV** – Dywedodd bod *Incredible Edible* wedi bod yn y Cwm heddiw yn plannu coed ffrwythau a'u bod am blannu llysiau yno hefyd a bod Ysgol Bro Cernyw am fod yn helpu'r wythnos nesaf hefyd. Hefyd, dywedodd y bydd y criw oriau cymunedol yn paentio'r toiledau a gofynnodd am ganiatâd iddyn nhw baentio tu mewn i'r safle bws ar draws y ffordd i'r siop hefyd. Penderfynwyd i CWG gysylltu gyda Steve Trow.

**CR** – Dywedodd bod Kevin wedi ei ffonio yn ystod y mis i ddweud ei fod wedi cael cyfarwyddyd gan Emyr i osod giât am Dy'n ffordd a 2 gamfa am Singrug. Mae'n meddwl mai'r Cyngor Sir fydd yn ariannu hyn ond bydd Kevin yn cadarnhau.

## 12 CYFARFOD NESAF

Chwefror 19eg 2025 yn Llangernyw.
Cyfarfod yn dod i ben am 20:40.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.